# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 2

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

*Staff, arbenigwyr a chomisiynwyr cynorthwyol*

### 8 Prif weithredwr

(1) Rhaid i'r Comisiwn gyflogi prif weithredwr.

(2) Mae'r prif weithredwr i'w benodi gan **[**[F1]y Comisiwn**]** ar delerau ac amodau a benderfynir **[**[F2]ganddo**]** (gan gynnwys amodau o ran tâl, pensiwn, lwfansau a threuliau).

**[**[F3](2A) Ond os yw swydd prif weithredwr wedi bod yn wag am dros chwe mis, caiff Gweinidogion Cymru benodi prif weithredwr o dan unrhyw delerau ac amodau a bennir ganddynt (gan gynnwys amodau o ran cydnabyddiaeth ariannol, pensiwn, lwfansau a threuliau).**]**

(3) Cyn penodi prif weithredwr **[**[F4]o dan is-adran (2A),**]** rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn.

**[**[F5](4) Ni chaiff y prif weithredwr fod—

(a) yn aelod Seneddol;

(b) yn Aelod o'r Senedd;

(c) yn aelod o awdurdod lleol;

(d) yn swyddog awdurdod lleol;

(e) yn aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(f) yn gomisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn a. 8(2) wedi ei amnewid (1.4.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 163(2)(a)**, 175(7); O.S. 2021/231, ergl. 3(a)

**F2** Gair yn a. 8(2) wedi ei amnewid (1.4.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 163(2)(b)**, 175(7); O.S. 2021/231, ergl. 3(a)

**F3** A. 8(2A) wedi ei fewnosod (1.4.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 163(3)**, 175(7); O.S. 2021/231, ergl. 3(a)

**F4** Geiriau yn a. 8(3) wedi eu mewnosod (1.4.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 163(4)**, 175(7); O.S. 2021/231, ergl. 3(a)

**F5** A. 8(4)(5) wedi ei fewnosod (1.4.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 163(5)**, 175(7); O.S. 2021/231, ergl. 3(a)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 mewn grym ar 30.9.2013, gweler **a. 75(2)(a)**

## 9 Staff eraill

(1) Caiff y Comisiwn gyflogi staff.

(2) Mae'r staff i'w cyflogi ar delerau ac amodau a benderfynir gan y Comisiwn (gan gynnwys amodau o ran tâl, pensiwn, lwfansau a threuliau).

(3) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y symiau sy'n daladwy i'w staff mewn cysylltiad â thâl, pensiynau, lwfansau a threuliau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 9 mewn grym ar 30.9.2013, gweler **a. 75(2)(a)**

## 10 Arbenigwyr

(1) Caiff y Comisiwn benodi person ("arbenigwr") i'w gynorthwyo i arfer ei swyddogaethau.

(2) Cyn penodi arbenigwr rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

(3) Ni chaniateir i benodiad o dan is-adran (1) gael ei wneud oni bai bod y Comisiwn wedi ei fodloni bod gan yr arbenigwr wybodaeth, profiad neu arbenigedd sy'n berthnasol i'r broses o arfer ei swyddogaethau.

(4) Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau neu dreuliau a benderfynir ganddo i'r arbenigwr.

(5) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i arbenigwr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 10 mewn grym ar 30.9.2013, gweler **a. 75(2)(a)**

## 11 Comisiynwyr cynorthwyol

(1) Caiff y Comisiwn benodi person ("comisiynydd cynorthwyol") y caiff, at ddibenion adran 13, ddirprwyo swyddogaethau iddo.

(2) Ond ni chaiff y Comisiwn benodi person sydd yn—

(a) aelod Seneddol;

(b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(c) aelod o awdurdod lleol [F6]...;

(d) swyddog i awdurdod lleol [F7]...;

(e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(f) comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu

(g) aelod o staff y Comisiwn.

(3) Cyn penodi comisiynydd cynorthwyol rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

(4) Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau neu dreuliau a benderfynir ganddo i gomisiynydd cynorthwyol.

(5) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i gomisiynydd cynorthwyol.

**Diwygiadau Testunol**

**F6** Geiriau yn a. 11(2)(c) wedi eu hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 163(6)**, 175(7); O.S. 2021/231, ergl. 3(a)

**F7** Geiriau yn a. 11(2)(d) wedi eu hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 163(6)**, 175(7); O.S. 2021/231, ergl. 3(a)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 11 mewn grym ar 30.9.2013, gweler **a. 75(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Staff, arbenigwyr a chomisiynwyr cynorthwyol.